## Gweithgaredd Dysgu

Mae'r adnodd hwn yn darparu gweithgareddau dysgu ar gyfer eich myfyrwyr drwy ddefnyddio Casgliad y Werin Cymru. Mae'n bosibl ei ddefnyddio hefyd yn dempled i greu eich gweithgareddau eich hun drwy ddefnyddio gwefan Casgliad y Werin Cymru.

**Cam Cynnydd** 3

**Pwnc** Defnyddio Archifau i Ymchwilio i Hanes Lleol

**Teitl** **Ar Garreg Eich Drws – Ffotograffau**
*Defnyddio archifau i ymchwilio i hanes lleol*

**Awdur** Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru a'r archifdai lleol canlynol: Archifau Gwent, Archifau Sir Benfro, Archifau Ynys Môn, Gwasanaeth Archifau ac Astudiaethau Lleol Wrecsam, Amgueddfa Dreftadaeth Gymunedol a Cordell Blaenafon.

## Defnyddio Archifau i Ymchwilio i Hanes Lleol – Ffotograffau

Mae'r adnodd hwn yn edrych ar sut y gallwch ymchwilio i hanes eich ardal drwy ddefnyddio ffotograffau fel math o ffynhonnell sydd ar gael mewn archifdai a swyddfeydd cofnodion lleol a chenedlaethol yng Nghymru. Mae'n rhan o gyfres sy'n ffurfio'r blociau adeiladu sylfaenol er mwyn cael gwybod am hanes lleol.

Bwriedir i'r adnodd fod yn ganllaw i athrawon, i'w helpu i ddefnyddio prif ffynonellau yn yr ystafell ddosbarth. Gall yr adnodd helpu athrawon hefyd i weithio gyda'u harchifdy lleol i ddod o hyd i ffynonellau tebyg ar gyfer eu hardal eu hunain. Ei nod yw cyflwyno athrawon a myfyrwyr i'r mathau o ffynonellau archifol sy'n cael eu defnyddio ar gyfer hanes lleol ac i ymgyfarwyddo â ffurf, golwg a chynnwys y ffynonellau.

# Ar Garreg Eich Drws – Ffotograffau – Amcanion Dysgu

**Bydd y dysgwyr yn deall:**

- Rôl yr archifdai o ran darparu ffynonellau hanesyddol pwysig.
- Rôl defnyddio ffotograffau'n fath o ffynhonnell hanesyddol.
- Pa fath o fywyd oedd gan bobl ar ddiwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg a dechrau'r ugeinfed ganrif yn eu hardal leol o'i gymharu â bywyd mewn rhannau eraill o Gymru.

**Bydd y dysgwyr yn gallu:**

### Pwnc yn y Cwricwlwm – Hanes

- Defnyddio ystod o ffynonellau, gan gynnwys TGCh, i chwilio am wybodaeth.
- Gofyn ac ateb cwestiynau perthnasol am y gorffennol.
- Adnabod gwahaniaethau rhwng ffyrdd o fyw mewn gwahanol gyfnodau.
- Nodi'r gwahanol ffyrdd o gynrychioli a dehongli'r gorffennol.
- Dewis, cofnodi a threfnu gwybodaeth hanesyddol.
- Cyfleu syniadau, safbwyntiau a chasgliadau yn fwyfwy annibynnol mewn amrywiaeth o ffyrdd.

### Fframwaith Llythrennedd

- Gwrando ac ymateb i safbwyntiau a syniadau pobl eraill.
- Cyfrannu i drafodaethau a chyflwyniadau.
- Nodi'r prif syniadau, y prif ddigwyddiadau a'r manylion ategol.
- Cynllunio ac addasu arddull ysgrifennu i weddu i'r gynulleidfa ac i'r diben.
- Defnyddio strwythur sy'n briodol ar gyfer diben a ffocws yr ysgrifennu.
- Defnyddio iaith sy'n briodol ar gyfer yr ysgrifennu.

### Pwnc yn y Cwricwlwm – Daearyddiaeth

- Adnabod beth sy'n debyg ac yn wahanol er mwyn disgrifio, cymharu a chyferbynnu lleoedd ac amgylcheddau.
- Disgrifio achosion a chanlyniadau newid mewn lleoedd ac yn yr amgylchedd, o'r gorffennol i'r presennol.
- Arsylwi a gofyn cwestiynau am le.

# Ar Garreg Eich Drws – Ffotograffau – Fframwaith Sgiliau

### Meddwl

- Gofyn cwestiynau.
- Ysgogi gwybodaeth, sgiliau a dealltwriaeth flaenorol.
- Pwyso a mesur tystiolaeth, gwybodaeth a syniadau.
- Gwerthuso'u dysgu a'u meddwl eu hunain.

### Cyfathrebu

- Datblygu a chyfleu gwybodaeth a syniadau.
- Trefnu syniadau a gwybodaeth.
- Cyfleu gwybodaeth.

### TGCh

- Canfod a datblygu gwybodaeth a syniadau.
- Creu a chyflwyno gwybodaeth a syniadau.

# Ar Garreg Eich Drws – Ffilm Ragarweiniol – Ffotograffau

## Cyflwyniad

Mae'r adnodd hwn yn rhan o gyfres o wyth. Mae pob adnodd yn y gyfres yn cyflwyno gwahanol fath o ffynhonnell hanesyddol. Mae'r mathau o ffynonellau hanesyddol sy'n cael eu cyflwyno yn yr adnodd hwn yn nodweddiadol o'r hyn y gallech chi edrych arnyn nhw mewn project hanes lleol ac maen nhw i gyd ar gael yn eich archifdy lleol.

Dyma'r gwahanol fathau o ffynonellau sy'n cael eu cyflwyno:

Y Cyfrifiad
Mapiau'r Degwm a Mapiau Arolwg Ordnans
Llyfrau Log Ysgolion
**Ffotograffau**
Cofrestrau Plwyf - bedyddiadau a marwolaethau
Cyfeiriaduron Masnach
Catalogau Gwerthu
Papurau newydd

Mae'r ffynonellau hanesyddol enghreifftiol ym mhob adnodd yn dod o bedair ardal yng Nghymru: Caergybi, Blaenafon, Saundersfoot a Wrecsam. Maen nhw'n deillio o ddiwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg a dechrau'r ugeinfed ganrif. Gan ddefnyddio'r rhain yn enghreifftiau, mae'n bosibl archwilio, creu cysylltiadau a chymariaethau, gofyn ac ateb cwestiynau, darganfod tirweddau a phobl a'r cysylltiadau sydd rhyngddyn nhw.

Ceir ffilm fer sy'n cyflwyno archifau ac ar gyfer pob math o ffynhonnell, ac yna ceir ffilm fer ychwanegol sy'n esbonio'r math o ffynhonnell a sut y gallwn ei defnyddio i gael gwybod rhagor am hanes lleol. Mae trawsgrifiad o'r ffilmiau a'r mân-luniau yn y **nodiadau i athrawon.** Mae'r delweddau maint llawn ar gael drwy ddilyn y dolenni i wefan Casgliad y Werin Cymru.

Ar gyfer pob adnodd yn y gyfres mae sawl **tasg ar-lein** ar gyfer y disgyblion sy'n defnyddio'r ffynonellau o'r pedair ardal. Mae'n bosibl gweld y ffynonellau hyn ar-lein ar wefan Casgliad y Werin Cymru drwy ddilyn y dolenni sydd ar daflenni tasgau'r disgyblion. Mae **gweithgareddau ychwanegol** hefyd sy'n awgrymu sut y gallai'r disgyblion ddefnyddio ffynonellau eu harchifdy lleol i ymchwilio i'r hanes lleol sydd ar garreg eu drws. Mae'r gweithgareddau ychwanegol hyn yn galluogi disgyblion i gymharu a gwrthgyferbynnu eu hardal hwy ag ardaloedd eraill yng Nghymru. Ceir manylion archifdai lleol a chenedlaethol Cymru ar ddiwedd y nodiadau i athrawon.

Gwylio'r ffilm – yr Archif a'r Archifdy

# Ar Garreg Eich Drws – Testun Rhagarweiniol

Rhagarweiniad byr ar ffilm yw hwn lle mae archifydd yn esbonio ffotograffau fel math o ffynhonnell a sut y gallwn eu defnyddio i gael gwybod rhagor am hanes lleol.

Gwyliwch y ffilm – Defnyddio Ffotograffau

# Edrych ar Archifau – *Ffotograffau*







## Defnyddio ffotograffau

**PA BRYD y tynnwyd y ffotograff?**
Mae ffotograffau'n crynhoi neu'n dogfennu **un foment mewn amser**. **“***Rydym yn awr yn creu hanes, ac mae'r llun o'r haul yn ffordd o drosglwyddo cofnod o'r hyn ydyn ni, a'r hyn yr ydym wedi'i gyflawni ym mhedwaredd ganrif ar bymtheg yn ein cynnydd.”* Dyna a ddywedodd John Thomson wrth y Gymdeithas Ddaearyddol Frenhinol ym 1891.

Un o'r heriau wrth ddefnyddio ffotograffau yw gwybod pa bryd oedd y **foment honno mewn amser**! Hynny yw, pa bryd y cawson nhw eu tynnu. Os nad yw’r dyddiad wedi'i gofnodi ar y ffotograff, neu os nad oedd wedi'i dynnu adeg digwyddiad amlwg a bod hwnnw wedi'i gofnodi, dim ond dyfalu pa bryd y cafodd y llun ei dynnu y gallwn ei wneud drwy edrych ar ddillad, steiliau gwallt, arwyddion, cludiant ac ati. Mae cymharu dau lun gwahanol o'r un lle ac edrych am wahaniaethau rhyngddyn nhw weithiau'n gallu ein helpu i ddyfalu pa bryd y tynnwyd y lluniau. Gall dillad, coed a thywydd tymhorol fod yn gliwiau i'r adeg o'r flwyddyn.

**PWY a dynnodd y ffotograff a phwy sydd yn y ffotograff?**
Her arall yw nad ydym yn aml yn gwybod pwy yw’r bobl yn y ffotograffau os nad yw eu henwau wedi'u hysgrifennu ar y cefn. Mae'n ddefnyddiol meddwl am y berthynas rhwng y sawl sy'n tynnu'r llun a'r bobl sydd yn y ffotograff. Er enghraifft, a yw’r bobl yn y ffotograff yn gwybod bod y ffotograff yn cael ei dynnu? A oedd y bobl yn y ffotograff yn sefyll yno’n arbennig er mwyn cael tynnu eu llun?

Wrth edrych yn ofalus ar yr hyn mae pobl yn y ffotograffau'n ei wneud, mae hynny'n gallu dweud wrthym am fyd gwaith a bywyd y teulu. Mae dillad a'r amgylchiadau'n rhoi cliwiau i ni am statws y bobl a'u swyddi.

**BLE y cafodd y ffotograff ei dynnu?**
Weithiau, ni allwn hyd yn oed weld ble y cafodd y ffotograff ei dynnu, ond, drwy wneud gwaith ditectif gofalus a thrwy gymharu â ffotograffau ac o bosibl â mapiau eraill sydd ar gael, gallwn weithiau ddarganfod ble mae'r lleoliad.

**PAM y cafodd y ffotograff ei dynnu?**
Mae ffotograffau hanesyddol yn cynnwys pob math o gliwiau am fywyd a lleoedd yn y gorffennol. Cofiwch fod ffotograffau hanesyddol yn aml wedi eu tynnu am resymau penodol, a'r pynciau a'r lleoedd wedi'u dewis yn ofalus i gyfleu neges benodol.

Yn ystod y tasgau, defnyddiwch y dolenni i gasgliadau gwefan Casgliad y Werin Cymru i edrych ar yr holl ffotograffau ar-lein. Drwy gymharu'r ffotograffau, mae modd cael gwybodaeth ddefnyddiol am y pethau a oedd yn debyg a'r pethau a oedd yn wahanol mewn gwahanol rannau o Gymru ar ddiwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg a dechrau'r ugeinfed ganrif.

## Ar Garreg Eich Drws – Ffotograffau / Tasg 1

**Sut fywyd oedd bywyd gweithio pobl ar ddiwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg a dechrau'r ugeinfed ganrif?**

Astudiwch y ffotograffau o'r casgliad isod.

**Dyma ychydig o gwestiynau i'ch helpu gyda'ch tasgau.**

Beth mae'r ffotograffau hyn yn ei ddweud wrthym am swyddi pobl ar ddiwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg a dechrau'r ugeinfed ganrif? Pa fathau o swyddi mae pobl yn eu gwneud?
Beth rydych chi'n gallu ei weld, ei glywed neu ei arogli?
Sut mae'r bobl yn y ffotograffau'n teimlo tybed? Beth mae'r bobl yn y ffotograffau'n ei wneud? Ydyn nhw i gyd yn gweithio? Beth yw'r amodau?
Pa gwestiynau rydych chi eisiau eu gofyn am yr hyn sydd yn y ffotograffau?

### Casgliad ar gyfer Tasg 1
Dolen i'r casgliad ar wefan Casgliad y Werin Cymru

## Ar Garreg Eich Drws – Ffotograffau / Tasg 2

**Sut oedd cludiant a theithio ar ddiwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg a dechrau'r ugeinfed ganrif?**

Astudiwch y ffotograffau o'r casgliad isod.

**Dyma ychydig o gwestiynau i'ch helpu gyda'ch tasgau.**

Rhestrwch yr holl fathau o gludiant y gallwch chi eu gweld yn y ffotograffau. Ar beth rydych chi'n sylwi arno wrth edrych ar y traffig ac ar wyneb y ffordd?
Sut y byddai pobl wedi teithio i Gaergybi, i Saundersfoot, i Flaenafon ac i Wrecsam ar sail y dystiolaeth sydd yn y ffotograffau.
Sut mae hyn yn wahanol i heddiw tybed?

### Casgliad ar gyfer Tasg 2
Dolen i'r casgliad ar wefan Casgliad y Werin Cymru

## Ar Garreg Eich Drws – Ffotograffau / Tasg 3

### Sut ddillad oedd yna ar ddiwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg a dechrau'r ugeinfed ganrif?

Astudiwch y ffotograffau o'r casgliad isod.

**Dyma ychydig o gwestiynau i'ch helpu gyda'ch tasg.**
Beth mae'r ffotograffau hyn yn ei ddweud wrthym am ddillad pobl ar ddiwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg a dechrau'r ugeinfed ganrif?
Ar beth rydych chi'n sylwi am ddillad pobl a'u hesgidiau yn y ffotograffau?
A oes gan bobl ddillad arbennig ar gyfer gwaith?
Sut mae eu dillad yn wahanol i ddillad heddiw?
Edrychwch ar y ffotograffau lle mae grwpiau o bobl. Beth maen nhw i gyd yn ei wneud? Allwch chi esbonio pam maen nhw i gyd yno ar y pryd? Ydych chi'n meddwl bod pobl wedi sefyll yno'n arbennig ar gyfer y ffotograff?

### Casgliad ar gyfer Tasg 3
Dolen i'r casgliad ar wefan Casgliad y Werin Cymru

## Ar Garreg Eich Drws – Ffotograffau / Tasg 4

### Sut olwg oedd ar yr adeiladau a'r strydoedd ar ddiwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg a dechrau'r ugeinfed ganrif?

Astudiwch y ffotograffau o'r casgliad isod.

**Dyma ychydig o gwestiynau i'ch helpu gyda'ch tasg.**

Dewiswch un o'r strydoedd. Disgrifiwch yr adeiladau. Sut maen nhw'n wahanol ym mhob lleoliad?
Beth yw'r cliwiau i'ch helpu i ddarganfod ble mae'r lleoliad?
Pa gwestiynau y byddech chi'n hoffi eu gofyn am y lle?
Allwch chi ddyfalu ym mha flwyddyn y cafodd ei dynnu? Allwch chi ddweud pa dymor oedd hi?
Beth yw'r cliwiau i'ch helpu i ateb y cwestiynau hyn?
Edrychwch ar y ffotograffau o'r strydoedd yn Saundersfoot a Blaenafon. Ym mha dref yr oedd y ganolfan fasnachol neu ganolfan siopa brysuraf tybed? Edrychwch ar beth mae arwyddion y siopau'n ei ddweud. Beth sy'n cael ei arddangos y tu allan i'r siopau?

### Casgliad ar gyfer Tasg 4
Dolen i'r casgliad ar wefan Casgliad y Werin Cymru

# Ar Garreg Eich Drws – Ffotograffau / Tasg 5

**Pa fath o dechnoleg oedd ar gael ar ddiwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg a dechrau'r ugeinfed ganrif?**

Astudiwch y ffotograffau o'r casgliad isod.

**Dyma ychydig o gwestiynau i'ch helpu gyda'ch tasg.**

Pa fathau o dechnoleg y gallwch chi eu gweld yn y ffotograffau hyn?
Sut mae hyn yn wahanol i dechnolegau heddiw?
Edrychwch ar y goleuadau yn y strydoedd a'r adeiladau. A oes goleuadau stryd ar y strydoedd? Pa fath o bŵer sy'n cael ei ddefnyddio i bweru unrhyw oleuadau neu lampau y gallwch eu gweld yn y ffotograffau?
Chwiliwch am enghreifftiau o'r mathau o dechnoleg sy'n cael ei defnyddio i ostwng a chodi pethau, i godi a dirwyn, i lwytho a dadlwytho. Sut mae hyn yn wahanol i dechnolegau heddiw?

## Casgliad ar gyfer Tasg 5

[Dolen i'r casgliad ar wefan Casgliad y Werin Cymru]

*Da iawn chi. Rydych wedi gorffen eich tasgau ac rydych wedi casglu gwybodaeth drwy ddefnyddio ffotograffau.*

## Dyma'ch cyfle chi i gael gwybod rhagor.

Gallwch ymweld â'ch swyddfa cofnodion neu'ch archifdy lleol neu ofyn iddyn nhw am enghreifftiau o ffotograffau ar gyfer eich ardal chi. Mae llawer o ffotograffau wedi cael eu sganio ac ar gael ar-lein erbyn hyn. Gallwch chi hefyd ofyn i'ch teulu a oes ganddyn nhw unrhyw ffotograffau o'ch ardal leol yn y gorffennol.
Cerddwch drwy eich ardal leol, eich pentref, eich stryd fawr ac ati, i weld a allwch weld unrhyw adeiladau, ffyrdd neu bontydd yn y ffotograffau sy'n dal yno heddiw. Tynnwch ffotograff o'r un lleoliad. Gallech ddatblygu arddangosfa o ffotograffau hanesyddol lleol, gan gynnwys labeli, a thynnu ffotograffau o'r un mannau yn y presennol, i'w cymharu â ffotograffau o'r gorffennol.

## Pa gwestiynau newydd fyddech chi'n hoffi cael atebion iddyn nhw?

**Gallwch wneud rhagor o ymchwil ar lein, yn eich archifdy, eich swyddfa cofnodion a'ch amgueddfa leol.**

**Gallwch ddod o hyd i'ch archifdy neu'ch swyddfa cofnodion leol yn** www.archiveswales.org.uk/

**Gallwch ddod o hyd i'ch amgueddfa leol yn** http://www.culture24.org.uk/places+to+go/wales **(Saesneg yn unig)**

**Llyfrgell Genedlaethol Cymru yn** www.llgc.org.uk/cy/

**Casgliad y Werin Cymru yn** www.casgliadywerincymru.co.uk

**Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru yn** www.cbhc.gov.uk

**Coflein yn** www.coflein.gov.uk

# Gweithgareddau Ychwanegol – Bywyd Gwaith

**Gan ddefnyddio ffotograffau o'ch archifau lleol, cymharwch sut roedd bywyd gwaith yn eich ardal leol yn wahanol i fywyd gwaith mewn rhannau eraill o Gymru yn ystod diwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg a dechrau'r ugeinfed ganrif.**

## GWEITHGAREDDAU DYSGU

### *Trafodaeth*

Edrychwch ar ffotograffau newydd o'ch ardal leol yn ystod diwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg a dechrau'r ugeinfed ganrif. Beth yw’r prif ddiwydiannau neu'r cyfleoedd ar gyfer gwaith? Sut mae hyn yn wahanol i'r ardaloedd eraill?
Beth yw oedran y gweithwyr? Allwch chi ddod o hyd i unrhyw enghreifftiau o blant yn gweithio yn y ffotograffau?
Ar beth rydych chi'n sylwi ynglŷn â diogelwch yn y mannau lle'r oedd pobl yn byw, yn teithio ac yn gweithio? Sut mae hyn wedi newid heddiw? Beth fyddai'n dderbyniol heddiw?
Allwch chi ddod o hyd i unrhyw enghreifftiau o sut y gallai pobl fod wedi paratoi ar gyfer damweiniau yn y gweithle?

## *Edrych ar fywydau gwaith ar ddiwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg a dechrau'r ugeinfed ganrif – canllawiau diogelwch i ddiwydiant*


Ar ôl astudio'r ffotograffau, bydd pob disgybl neu bob grŵp o ddisgyblion yn ysgrifennu set o ganllawiau diogelwch ar gyfer y diwydiant maen nhw wedi'i ddewis.

**Efallai y bydd y disgyblion yn dymuno cynnwys y wybodaeth hon:**

- **Y math o ddiwydiant.**
- **Oedran y gweithwyr yn y diwydiant.**
- **Damweiniau nodweddiadol a all ddigwydd yn y diwydiant.**
- **Cyngor a chanllawiau diogelwch i helpu i osgoi damweiniau.**

### *Syniadau ar gyfer rhagor o weithgareddau:*

- Cynllunio poster diogelwch er mwyn helpu i osgoi damweiniau.
- Dychmygwch eich bod yn blentyn yn gweithio yn un o'r ffatrïoedd. Ysgrifennwch gofnod mewn dyddiadur yn disgrifio eich diwrnod gwaith.







# Gweithgareddau Ychwanegol – Cludiant a Theithio

**Gan ddefnyddio ffotograffau o'ch archifau lleol, cymharwch sut roedd cludiant a theithio yn eich ardal leol yn wahanol i gludiant a theithio mewn rhannau eraill o Gymru yn ystod diwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg a dechrau'r ugeinfed ganrif.**

## GWEITHGAREDDAU DYSGU

### *Trafodaeth*

Edrychwch ar ffotograffau o gludiant a theithio o'ch ardal leol yn ystod diwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg a dechrau'r ugeinfed ganrif.
Beth yw'r prif fathau o gludiant?
Sut mae hyn yn wahanol i'r ardaloedd eraill? Sut mae'n cymharu â heddiw?

## *Edrych ar gludiant a theithio ar ddiwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg a dechrau'r ugeinfed ganrif – ysgrifennu ddyddiadur teithio*

Ar ôl astudio'r ffotograffau o'r archif, bydd pob disgybl neu grŵp o ddisgyblion yn dewis un math o gludiant ac yn ysgrifennu dyddiadur teithio i leoliad o'u dewis.

**Mae'n bosibl y bydd eu dyddiadur teithio'n cynnwys y wybodaeth ganlynol:**
- **Y math o gludiant a pham y gwnaethon nhw ei ddewis.**
- **Pen draw eu taith a phwrpas y daith honno.**
- **Pa mor hir oedd y daith. Cyflwr y ffyrdd.**
- **Unrhyw droeon trwstan neu broblemau ar hyd y ffordd.**

### *Syniadau ar gyfer rhagor o weithgareddau:*

- Edrychwch ar y ffotograffau o Saundersfoot yng Nghasgliad 2. I beth y bydden nhw'n defnyddio'r llongau mwy o faint sydd yn y cei tybed? Sylwch ar y craen symudol ar wal y cei. Fe welwch graen arall yn y ffotograff o Gaergybi. A oes unrhyw borthladd neu gei yn eich ardal chi? Gan ddefnyddio ffotograffau o archif lleol, sut mae'r rhain yn cymharu â'r ffordd maen nhw'n edrych nawr?
- Edrychwch ar y ffotograff o oleudy Ynys Lawd yng Nghasgliad 2. Pam mae goleudy Ynys Lawd ger Caergybi'n bwysig? Sut fyddai pobl yn cyrraedd y goleudy? Ydy'r goleudy'n dal yno heddiw?







# Gweithgareddau Ychwanegol – Dillad

**Gan ddefnyddio ffotograffau o'ch archifau lleol, cymharwch sut roedd dillad yn eich ardal leol yn wahanol i ddillad mewn rhannau eraill o Gymru yn ystod diwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg a dechrau'r ugeinfed ganrif.**

## GWEITHGAREDDAU DYSGU

### *Trafodaeth*

Edrychwch ar ffotograffau o bobl a dillad o'ch ardal leol yn ystod diwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg a dechrau'r ugeinfed ganrif. Sut mae eu dillad yn wahanol i'r dillad sydd yn yr ardaloedd eraill ac i ffasiynau heddiw?
Roedd ffotograffwyr yn dogfennu ac yn cofnodi digwyddiadau yn yr ardal leol. Ydy'r bobl yn sefyll yn arbennig er mwyn cael tynnu eu llun? A oedd y bobl yn awyddus i gael tynnu eu llun?

## *Edrych ar ddillad ar ddiwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg a dechrau'r ugeinfed ganrif – digwyddiadau sydd wedi'u dogfennu*

Ar ôl astudio'r ffotograffau, bydd pob disgybl neu bob grŵp o ddisgyblion yn dewis ffotograff o ddigwyddiad. Yna, byddan nhw'n disgrifio'r dillad y mae pobl yn eu gwisgo i ddigwyddiad o'r fath o safbwynt newyddiadurwr.

**Dyma'r math o wybodaeth y gallen nhw ei chynnwys yn eu hadroddiad:**

- **Y digwyddiad a dyddiad y digwyddiad.**
- **Disgrifiad o leoliad y digwyddiad.**
- **Pwy oedd yn bresennol yn y digwyddiad? Disgrifiwch y bobl a'r dillad.**
- **Faint o bobl oedd yn y digwyddiad? Oedd y digwyddiad hwn yn un pwysig?**

### *Syniadau ar gyfer rhagor o weithgareddau:*

- Edrychwch ar y ffotograffau o Gasgliad 3. Mae'r ffotograffau o blant yng Nghaergybi ac yn Saundersfoot yn dangos sut y byddai plant yn gwisgo ar gyfer yr ysgol a thripiau'r capel. Ydych chi'n meddwl bod merched yr Ysgol Brydeinig yng Nghaergybi fel arfer yn gwisgo fel hyn i fynd i'r ysgol? Pam tybed?
- Allwch chi ddod o hyd i unrhyw ffotograffau eraill sy'n dogfennu neu'n cofnodi digwyddiadau yn eich ardal leol ar Gasgliad y Werin Cymru a dweud a ydyn nhw’n arwyddocaol neu'n bwysig yn lleol neu'n genedlaethol?







# Gweithgareddau Ychwanegol – Adeiladau a Strydoedd

**Gan ddefnyddio ffotograffau o'ch archifau lleol, cymharwch sut roedd adeiladau, strydoedd a siopau eich ardal leol yn wahanol i'r rhai mewn rhannau eraill o Gymru yn ystod diwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg a dechrau'r ugeinfed ganrif.**

## GWEITHGAREDDAU DYSGU

### *Trafodaeth*

Edrychwch ar ffotograffau o adeiladau, strydoedd a siopau o'ch ardal leol yn ystod diwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg a dechrau'r ugeinfed ganrif. Sut mae'r rhain yn wahanol i'r hyn sydd mewn ardaloedd eraill ac i strydoedd heddiw?

### *Edrych ar yr adeiladau, y strydoedd a'r siopau ar ddiwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg a dechrau'r ugeinfed ganrif – ymchwilio i'ch stryd*

Ar ôl astudio'r ffotograffau o adeiladau a strydoedd o'r archifdy lleol, bydd pob disgybl neu grŵp o ddisgyblion yn dewis stryd ac yn ymchwilio i'w hanes gan ddefnyddio cyfeiriaduron masnach, catalogau gwerthu, ffurflenni cyfrifiad a Mapiau Arolwg Ordnans o'r ardal i'w helpu i wybod beth yw'r adeiladau. Yna, gallan nhw eu cymharu â sut mae'r strydoedd yn edrych heddiw.

**Gallai'r disgyblion gynnwys y wybodaeth canlynol:**

- **Enw'r stryd a disgrifiad byr o'r stryd fel mae hi yn y ffotograff o'r bedwaredd ganrif ar bymtheg neu ddechrau'r ugeinfed ganrif.**
- **Enwau a rhifau unrhyw siopau sydd ar y stryd a sut mae'r siopau hyn wedi newid dros gyfnod o amser.**
- **Sut mae golwg unrhyw rai o'r adeiladau wedi newid.**

### *Syniadau ar gyfer rhagor o weithgareddau:*

- Edrychwch ar y ffotograffau yng Nghasgliad 4. Yn ffotograffau Blaenafon, edrychwch ar y ddau ffotograff o neuadd y Gweithwyr. Pa un yw'r ffotograff cynharaf tybed a pham rydych chi'n meddwl hyn? Allwch chi awgrymu pryd y cafodd y ddau ffotograff eu tynnu?
- Defnyddiwch fapiau Arolwg Ordnans a'r cyfeiriadur masnach o Gasgliad 4 ac unrhyw gliwiau o ffotograffau Saundersfoot o Railway Street i gael gwybod beth yw'r adeilad sydd yng nghornel dde bellaf Railway Street. Mae'r arwyddion a'r polion yn gliwiau hefyd. Chwiliwch am Railway Street, Saundersfoot ar y Map Arolwg Ordnans. Allwch chi ddod o hyd i'r tŷ sydd ar ffurflen cyfrifiad 1891 Saundersfoot hefyd?
- Edrychwch ar y ffotograffau o Saundersfoot a Blaenafon. Cymharwch yr arwyddion y tu allan i'r siopau â'r cyfeiriaduron masnach o Saundersfoot a Blaenafon yng Nghasgliad 4. Allwch chi ddweud beth mae'r siopau'n ei werthu? Sylwch ar yr adeilad tebyg i gastell yn nhri o'r ffotograffau o Saundersfoot – defnyddiwch y cyfeiriaduron masnach o Saundersfoot i gael gwybod beth yw'r adeilad hwn.







# Gweithgareddau Ychwanegol – Technoleg a Phŵer

**Gan ddefnyddio ffotograffau o'ch archifau lleol, cymharwch sut roedd technoleg a phŵer yn eich ardal leol yn wahanol i dechnoleg a phŵer mewn rhannau eraill o Gymru yn ystod diwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg a dechrau'r ugeinfed ganrif.**

## GWEITHGAREDDAU DYSGU

### *Trafodaeth*

Edrychwch ar ffotograffau o enghreifftiau o dechnoleg a phŵer o'ch ardal leol yn ystod diwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg a dechrau'r ugeinfed ganrif. Sut mae'r rhain yn wahanol i'r lleoliadau eraill ac i'r dechnoleg a'r pŵer rydych chi'n eu gweld heddiw yn eich ardal leol?

## *Edrych ar dechnoleg a phŵer ar ddiwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg a dechrau'r ugeinfed ganrif – pŵer a thechnoleg ddiwydiannol*

Ar ôl astudio'r ffotograffau, bydd pob disgybl neu grŵp o ddisgyblion yn dewis un ffurf ar bŵer neu dechnoleg ddiwydiannol i'w hyrwyddo, ar ffurf taflen neu gyflwyniad byr gan dynnu sylw at sut maen nhw'n cael eu defnyddio, beth yw eu manteision, eu costau a'u prif fanteision.

**Dyma'r math o wybodaeth y gallen nhw ei chynnwys yn eu cyflwyniad:**

- **Enw'r pŵer neu'r dechnoleg a'r math o bŵer neu dechnoleg.**
- **Manteision y pŵer neu'r dechnoleg o gymharu â'r dulliau hŷn y byddan nhw'n eu disodli.**
- **Sut y bydd y pŵer neu'r dechnoleg yn newid arferion gweithio.**
- **Cost y pŵer neu'r dechnoleg ac i ba raddau y maen nhw ar gael.**

### *Syniadau ar gyfer rhagor o weithgareddau:*

- Edrychwch ar y ffotograffau yng Nghasgliad 5. Pa fathau gwahanol o ynni sy'n cael ei defnyddio i bweru'r cludiant rydych chi'n ei weld yn y ffotograffau?
- Allwch chi ddod o hyd i ragor o enghreifftiau o bŵer a thechnoleg ar wefan Casgliad y Werin Cymru?







## Mae ffotograffau'n gallu rhoi llawer o wybodaeth ddefnyddiol i ni am ein hardal leol gan ein helpu i greu llun o'r gorffennol.

**Dyma drawsgrifiad o'r ffilm sy'n sôn am ddefnyddio ffotograffau gan ddefnyddio un ardal yn enghraifft.**

**Beth yw ffotograff?**
Rydym i gyd yn gyfarwydd â chael tynnu ein llun a defnyddio camerâu digidol a ffonau symudol i dynnu lluniau ac yna eu rhannu, naill ai ar y rhyngrwyd neu drwy argraffu copïau. Mae'r rhan fwyaf o swyddfeydd cofnodion yn cadw copïau o ffotograffau yn eu casgliadau. Yn ystod y bedwaredd ganrif ar bymtheg, roedd cael tynnu eich llun yn beth anarferol. Gan amlaf, ffotograffwyr arbenigol fyddai'n tynnu lluniau a hyd yn oed wedyn, portreadau ffurfiol oedden nhw. Fel rheol, mae'r portreadau'n dangos pobl eithaf cefnog oherwydd byddai'n rhaid i chi dalu i'r ffotograffydd dynnu eich llun ac felly nid oedd pobl dlotach yn gallu fforddio gwneud hyn. Yn y portreadau cynnar hyn, oherwydd y ffordd yr oedd y camera'n gweithio, roedd yn rhaid i'r bobl aros yn llonydd iawn am gryn amser, oherwydd pe baen nhw'n symud, byddai'r llun yn niwlog.

Ffordd werthfawr o gael y wybodaeth orau o unrhyw ffotograff rydych chi'n edrych arno yw gofyn cwestiynau amdano. Dechreuwch drwy ofyn y cwestiynau y gallwch eu hateb ar unwaith drwy edrych ar eich ffotograff, er enghraifft: Ydych chi'n gwybod ymhle mae'r lleoliad? Pwy sydd yn y llun? Pa eitemau sydd yn y llun? Yna, dechreuwch ofyn cwestiynau mwy anodd – rhai y bydd angen i chi wneud rhagor o ymchwil er mwyn dod o hyd i'r ateb, er enghraifft: Pam y cafodd y ffotograff ei dynnu? Os oes pobl yn y llun, pam maen nhw yno? Os oes gwrthrychau, ble maen nhw? Mae hyn yn help i ddatblygu sgiliau holi, ond mae hefyd yn dangos potensial ffotograffau wrth eu cyfuno â dogfennau archifol eraill, er enghraifft ffurflenni cyfrifiad, mapiau a phapurau newydd.

**Pa wybodaeth allwn ni ei chasglu o ffotograffau?**
Mae ffotograffau'n gallu dangos i ni sut olwg oedd ar leoedd a phobl ar gyfnod benodol mewn hanes. Maen nhw'n gallu dangos i ni beth sydd wedi newid neu wedi aros yr un fath. Os edrychwn ar y ffotograff hwn o Borthladd Caergybi, gallwn weld y newidiadau sydd wedi digwydd wrth i amser fynd heibio.




Dolen i'r ddelwedd

Roedd Caergybi yn borthladd pwysig oherwydd bod ganddi gysylltiadau ag Iwerddon a'i bod ar y lôn bost. Beth y gallwch chi ei weld wrth i chi edrych ar y ffotograff hwn? Ydy'r llongau yn edrych yn debyg i'r llongau a fyddai'n hwylio o borthladd prysur heddiw? Pa fathau o arogleuon a synau y gallwch chi eu dychmygu dim ond drwy edrych ar y ffotograff hwn? Beth mae'r pethau hyn yn ei ddweud wrthych chi am Borthladd Caergybi yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg? Mae gofyn y mathau hynny o gwestiynau wrth edrych ar ffotograff yn gallu ein helpu i ail-greu teimlad a golwg y lle yn y gorffennol.

Mae ffotograffau o bobl hefyd yn gallu dangos i ni sut mae pethau wedi newid. Edrychwch ar y ffotograff o blant ysgol yn yr Ysgol Brydeinig yng Nghaergybi.



Dolen i'r ddelwedd

Beth allwch chi ei weld? Ydych chi wedi cael tynnu eich llun yn yr ysgol? Fyddech chi'n dweud bod eich ffotograffau'n debyg i'r ffotograff hwn? Beth am y dillad? Ydy eu dillad nhw'n debyg neu'n wahanol i'ch rhai chi? Ble mae'r bechgyn? Yn ystod y bedwaredd ganrif ar bymtheg, roedd bechgyn a merched yn cael eu haddysg ar wahân gan amlaf, ac weithiau, roedden nhw'n mynd i ysgolion ar wahân. Edrychwch ar wynebau'r merched. Nid ydyn nhw'n gwenu. Go brin y byddai'r merched hyn wedi cael tynnu eu llun yn aml iawn felly efallai na fydden nhw'n siŵr iawn beth i'w wneud, a chofiwch, bydden nhw wedi gorfod sefyll yn llonydd iawn am gryn amser. Yn olaf, edrychwch ar yr athrawes sy'n sefyll yn y canol. Ydy hi'n edrych yn debyg i'ch athrawes chi? Beth sy'n wahanol neu'n debyg amdani?

Er bod y ffotograffau eu hunain yn gallu rhoi llawer o wybodaeth i ni, os defnyddiwn ffynonellau eraill hefyd ochr yn ochr â ffotograffau, byddwn yn gallu casglu hyd yn oed fwy o ffeithiau. Drwy wneud rhagor o ymchwil yn yr archifdy gan ddefnyddio'r ffotograff hwn o ddyn gwneud watsis ar Stryd Fawr Caergybi fel man cychwyn, gallwn gasglu tipyn mwy o wybodaeth. Wrth i ni edrych ar y cyfrifiad ar gyfer 1901, daethom o hyd i ddyn o'r enw B. Jukes, gwneuthurwr watsis o'r Alban a oedd yn byw gyda'i deulu uwchben ei siop yng Nghaergybi. Edrychwch yn fwy gofalus ar y dyn sydd â mwstas. Edrychwch ar ei draed. Mae'n gwisgo sliperi. Ydy hyn efallai'n golygu ei fod newydd ddod i lawr grisiau o'i gartref uwchben y siop, a chan nad oes rhaid iddo fynd allan, nid oes rhaid iddo wisgo esgidiau? Ai'r un person yw hwn efallai â'r dyn sydd yn y cyfrifiad?




Dolen i'r ddelwedd

## Ar Garreg Eich Drws – Ffotograffau / Nodiadau i Athrawon

Mae'r rhesi o watsis yn y ffenestr yn gwneud i chi feddwl bod tipyn o bobl yng Nghaergybi eisiau watsys yn y cyfnod hwn. Nid watsis fel y rhai y byddwch chi'n eu gwisgo ar eich arddwrn yw'r rhain. Watsis poced ydyn nhw ac maen nhw'n hongian o boced neu dwll botwm ar gadwyn fel yr un mae'r dyn yn y ffotograff yn ei wisgo. Nid oedd pawb yn gallu fforddio wats fel hyn ac roedd pobl yn eu gwisgo yn y cyfnod hwn er mwyn dangos eu bod nhw'n gyfoethog.

Nid oes gwybodaeth wedi'i chynnwys gyda'r rhan fwyaf o'r ffotograffau sydd wedi'u cadw mewn archifdai. Mae hyn yn gallu ei gwneud hi'n anodd iawn eu defnyddio nhw. Dyna pam mae'n bwysig iawn i ni i gyd gofnodi gwybodaeth gyda'n ffotograffau, er enghraifft ymhle y cafodd y llun ei dynnu, pwy sydd ynddo, a hyd yn oed pwy dynnodd y llun. Bydd hyn yn ei gwneud yn haws o lawer i bobl yn y dyfodol allu cael gwybodaeth dda o'r ffotograffau.

Mae'r rhan fwyaf o swyddfeydd cofnodion yn cadw cannoedd o ffotograffau sydd ar gael i'r cyhoedd a allai helpu i ddod â hanes eich ardal yn fyw.

Bydd gan rai amgueddfeydd lleol 'focsys trin a thrafod' o arteffactau y maen nhw'n fodlon eu benthyca i ysgolion. Mae'r rhain yn ffordd ardderchog o ddod â hanes i'r ystafell ddosbarth i ategu'r dysgu.

## Rhagor o Wybodaeth – Archifdai Lleol

### Gallwch ddod o hyd i'ch archifdy lleol isod:

Archifau Gwent enquiries@gwentarchives.gov.uk Ffôn: 01495 353363

Archifau Morgannwg glamro@caerdydd.gov.uk Ffôn: 029 2087 2200

Archifau Prifysgol Abertawe archives@swansea.ac.uk Ffôn: 01792 295021

Archifau Prifysgol Aberystwyth archives@aber.ac.uk Ffôn: 01970 628593

Archifau Prifysgol Bangor archives@bangor.ac.uk Ffôn: 01248 382966

Archifau Prifysgol Cymru, y Drindod Dewi Sant rodericbownlibrary@tsd.ac.uk Ffôn: 01248 38296

Archifau Ynys Môn archifdy@ynysmon.gov.uk Ffôn: 01248 751930

Archifdy Ceredigion archives@ceredigion.gov.uk Ffôn: 01970 633697/633698

Archifdy Cymdeithas Hynafiaethau Castell-nedd westglam.archives@abertawe.gov.uk Ffôn: 01639 620139

Archifdy Gwynedd, Meirionnydd archifau.dolgellau@gwynedd.gov.uk Ffôn: 01341 424 682

Archifdy Gwynedd, Caernarfon archifau.caernarfon@gwynedd.gov.uk Ffôn: 01286 679095

Archifdy Sir Ddinbych archif@sirddinbych.gov.uk Ffôn: 01824 708250

Archifdy Sir Benfro record.office@pembrokeshire.gov.uk Ffôn: 01437 775456

Archifdy Sir y Fflint archives@siryfflint.gov.uk Ffôn: 01244 532364

# Rhagor o Wybodaeth – Archifdai Lleol

Gwasanaeth Archifau ac Astudiaethau Lleol Wrecsam archives@wrecsam.gov.uk Ffôn 01978 297480

Gwasanaeth Archifau Conwy archifau.archives@conwy.gov.uk Ffôn 01492 577550

Gwasanaeth Archifau Gorllewin Morgannwg, Abertawe westglam.archives@abertawe.gov.uk Ffôn 01792 636589

Gwasanaeth Archifau Sir Gaerfyrddin archives@sirgar.gov.uk Ffôn: 01267 228232

Prifysgol Caerdydd, Casgliadau Arbennig ac Archifau keelanp@caerdydd.ac.uk Ffôn: 029 2087 5678

Swyddfa Archifau Sir Powys archives@powys.gov.uk Ffôn: 01597 826088

**Gallwch ddod o hyd i ragor o adnoddau ar-lein, yn eich archifdy, eich swyddfa cofnodion a'ch amgueddfa leol.**

**Gallwch ddod o hyd i'ch archifdy neu'ch swyddfa cofnodion leol yn www.archiveswales.org.uk/**

**Gallwch ddod o hyd i'ch amgueddfa leol yn www.culture24.org.uk/places+to+go/wales (Saesneg yn unig)**

**Llyfrgell Genedlaethol Cymru: www.llgc.org.uk/cy/**

**Casgliad y Werin Cymru: www.casgliadywerincymru.co.uk**

**Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru: www.cbhc.gov.uk**

**Coflein: www.coflein.gov.uk**

**Prydain oddi Fry: www.britainfromabove.org.uk/cy**